

**Ymchwilio ac Erlyn Trais Rhywiol**

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r polisi: | <i>Mae'r Polisi hwn yn ymdrin ag Ymateb Heddlu Dyfed-Powys i Drais Rhywiol</i> |
| Rhif y polisi: | <i>037/2021</i> |
| Rheoli fersiynau: | <i>Fersiwn: 5.0</i> <i>Dyddiad: Hydref 2021</i> <i>Awdur: Y Ditectif Uwcharolygydd [REDACTED]</i> <i>Rhesymeg: Adolygu a diweddarau'r polisi</i> <u>Gweler y wybodaeth rheoli fersiynau yn llawn yma.</u> |
| Dyddiad gweithredu: | <i>Hydref 2021</i> |
| Dyddiad adolygu: | <i>Hydref 2023</i> |
| Perchennog/cyswllt: (wedi'i gymeradwyo gan – y Bwrdd) | <i>Y Ditectif Uwcharolygydd [REDACTED], Pennaeth Diogelu Pobl Fregus (PVP)</i> <i>Y Ditectif Brif Arolygydd [REDACTED], perchennog portffolio Trais Rhywiol a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO)</i> |
| Ymgynghori chyperadwyo: | <i>a Gwasanaethau Cymorth</i> <i>Arweinydd RASSO Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)</i> |
| Cyfieithiad Cymraeg | <i>Oes</i> |



1. Datganiad Polisi

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod ymateb strategol a thactegol cyson i drais rhywiol. Bydd y polisi hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Ymchwilio i Drais Rhywiol a chanllawiau a ddarperir gan y Coleg Plismona.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a gweithwyr sy'n ymateb i droseddau o'r fath, o'r pwynt cyswllt cyntaf, drwy'r camau ymchwilio ac erlyn. Mae trais rhywiol fel y'i diffinnir o fewn Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn drosedd ddifrifol a all gael effaith hirdymor a dinistriol ar ddiodeffwr.

Mae ymateb yr Heddlu i drais rhywiol yn cael ei flaenoriaethu ac mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys yng nghynllun cyflawni'r Heddlu a Throseddu, yn benodol o dan y blaenoriaethau sy'n ymwneud â chadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu pobl fregus a diogelu (y gymuned) rhag niwed difrifol.

Mae'n berthnasol (ond heb fod yn gyfyngedig) i: Bob categori o gyflogaion Heddlu Dyfed-Powys, p'un ai eu bod yn llawn amser, yn rhan-amser, yn barhaol, ar gontract cyfnod penodol, mewn rôl dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, gweithwyr cysylltiol a chontractwyr) neu staff ar secondiad. Rhaid i unrhyw gyflogai sy'n cyrchu ac yn defnyddio asedau ac eiddo'r Heddlu roi sylw dyledus i gynnwys y polisi hwn.

2. Cwmpas y Polisi

Gweithredir y polisi hwn yn yr Heddlu ac fe'i hategir gan ddogfennau canllaw. Mae'r polisi ar gael i bob aelod o staff.

Rhaid cofnodi unrhyw wyriad o'r polisi a rhaid ei fod ar gael i'w adolygu'n ddiweddarach.

Amcanion y Polisi

- Darparu canllawiau mewn perthynas ag ymchwilio i Drais Rhywiol a'i erlyn, sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Cenedlaethol ac arferion gorau.
- Sicrhau bod troseddwr yn cael eu dwyn i gyfrif drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- Nodi cyfleoedd atal.



- Cynyddu hyder yn ymateb yr Heddlu i drais rhywiol a gwella dulliau adrodd.
- Mabwysiadu dull amlasiantaethol o ddatblygu gwasanaethau i ddiodefwr.
- Hyrwyddo strwythur sy'n adolygu perfformiad yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod ymateb yr Heddlu i drais rhywiol yn datblygu ac yn gwella.

3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

- [Canllawiau ACPO ar Ymchwilio i Drais Rhywiol a'i Erllyn.](#)
- [APP Trais a throseddau rhywiol](#)
- [Proses Cyngor Ymchwilio Cynnar \(EIA\)](#)
- [Canllawiau ar Gyflwyniadau er mwyn Cyhuddo mewn Achosion RASSO](#)
- [Deddf Troseddau Rhywiol 2003](#)

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchoddedig** sy'n gymwys i'w gwarchod o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oedran; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyffwrdd cyhoeddus i ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchoddedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil: dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu sy'n berthnasol i'r nodwedd hon.

SWYDDOGOL



Heddlu Police DYFED-POWYS

Mae cynnal **asesiad o effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisiau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gael [yma](#). Mae fersiwn Gymraeg o dempled yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael [yma](#). Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i gwblhau'r templed ar y dudalen amrywiaeth ar y fewnwyd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gwblhau

| | |
|--------------------|-------------------------------------|
| Enw: | Y Ditectif Uwcharolygydd [REDACTED] |
| Adran: | Adran Ymchwiliadau Troseddol |
| Llofnodwyd: | [REDACTED] |
| Dyddiad: | 30/09/2021 |

DEDDF HAWLIAU DYNOL

TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|--------------------|--------------------------|
| Enw: | [REDACTED] |
| Adran: | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Llofnodwyd: | [REDACTED] |
| Dyddiad: | 30 Medi 2021 |



4. Opsiynau a Chynlluniau Wrth Gefn

Mae'r cyfrifoldeb am ymateb yr Heddlu lleol i drais rhywiol yn cael ei rannu rhwng y Comander Rhanbarthol a'r Ditectif Brif Arolygydd sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Gwybodaeth, gweithrediad a chydymffurfiaeth y polisi hwn gyda'u staff.
- Nodi swyddogion addas i ymgymryd â hyfforddiant a rolau sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith ymchwilio arbenigol.
- Ymchwilio i drais rhywiol yn eu hardal ddaearyddol.
- Yr ymateb i unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau mewn ymchwiliad ynghyd â gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill, e.e. Cyfathrebu Corfforaethol, Uwch Swyddog Ymchwilio
- Sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar waith ar gyfer trosedd/ymchwiliad a ddiffinnir fel digwyddiad difrifol.

Cyfrifoldeb yr Uwch Swyddog Ymchwilio (SIO)

Mae gan bob trosedd trais rhywiol SIO sydd ar reng Ditectif Arolygydd o leiaf. Eu cyfrifoldeb yw datblygu a rheoli'r strategaeth ymchwilio, cofnodi penderfyniadau allweddol a'r rhesymeg ategol, adolygu cynnydd a chofnodi canlyniadau. Rhaid i'r SIO hefyd reoli adnoddau gan gynnwys unrhyw arbenigwyr sy'n ofynnol ar gyfer yr ymchwiliad a bod yn atebol i Brif Swyddogion am gynnal yr ymchwiliad.

Ymateb Cyntaf

- Cofnodir pob adroddiad o drais rhywiol yn unol â'r Safonau Cofnodi Digwyddiadau a Throseddau Cenedlaethol ar systemau'r Heddlu dynodedig. Rhaid cofnodi cynnydd yr ymchwiliad ar y system yr Heddlu dynodedig. Rhaid cofnodi cynnydd gan gynnwys ymholiadau negyddol.
- Mae pob trosedd trais rhywiol yn destun ymchwiliad cymesur gyda chefnogaeth swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- Ymchwilir i droseddau trais rhywiol gan swyddog sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol yn unol â Chanllawiau'r Coleg Plismona.
- Lle y bo'n briodol, bydd Swyddog Hyfforddedig Troseddau Rhyw (y cyfeirir ato fel SOTO), yn cael ei anfon allan, a gofynnir i'r dioddefwr a fyddai'n well

SWYDDOGOL



Heddlu Police **DYFED-POWYS**

ganddo weld swyddog gwrywaidd neu fenywaidd. Bydd hyn yn cael ei hwyluso oni bai y byddai hyn yn achosi oedi diangen i'r ymchwiliad.

- Pan fo'r digwyddiad wedi digwydd o fewn yr amserlen fforensig, bydd y swyddog sy'n mynychu yn gwneud hynny gan ystyried y canllawiau, sef [Canllawiau'r Coleg Plismona ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf](#).

Ymgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Rhaid i Swyddogion Ymchwilio a'u goruchwylwyr gydweithio â chyfreithwyr arbenigol ym maes Trais Rhywiol a Throseddau Rhyw Difrifol (y cyfeirir ato hefyd fel RASSO) er mwyn adeiladu achos tystiolaethol cryf.

Rhaid i swyddogion fanteisio ar gyngor ymchwilio cynnar (EIA) gan Wasanaeth Erlyn y Goron (y cyfeirir ato hefyd fel y CPS) yn unol â Phrotocol y CPS. Gall hyn ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad.

Paratoi Ffeiliau

Cwblheir y gwaith o adeiladu Ffeiliau yn unol â'r [Safonau Cenedlaethol ar gyfer Ffeiliau](#).

Penderfyniad i Gyflwyno ar gyfer Cyngor ar Gyhuddo

Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, mae'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn adolygu'r achos ac yn asesu a yw'r achos yn bodloni'r prawf tystiolaethol yn unol â'r Canllawiau Cyhuddo ar gyfer y CPS. Os yw'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn barnu bod y dystiolaeth yn ddigonol i fodloni'r trothwy, bydd yr achos yn cael ei gyflwyno i'r CPS. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei ddogfennu gan y Ditectif Arolygydd ac mae copi ynghlwm wrth y ffeil.

Os yw'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn barnu nad yw'r dystiolaeth yn ddigonol i fodloni'r trothwy, mae'n cadarnhau a oes unrhyw linellau ymholi pellach a allai ddatblygu'r achos tystiolaethol. Os dilynwyd pob llinell ymholi resymol ac nad yw'r dystiolaeth yn bodloni'r prawf, ni fydd yr achos yn cael ei ddwyn gerbron y CPS.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn cwblhau adroddiad terfynol.

Deunydd Trydydd Parti

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Rhaid gwneud ymholiadau'n gynnar mewn ymchwiliad er mwyn sefydlu'r angen am ddeunydd trydydd parti. Rhaid i unrhyw gais i asiantaeth arall ddarparu digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r derbynnydd i ddeall y wybodaeth a geisir.

Datgelu

Mae pob swyddog yn cadw at Ddeddf Achosion Troseddol ac Ymchwiliadau 1996 a'i Chod Ymarfer wrth ymchwilio i Droseddau Trais Rhywiol. Mae SIOs yn sicrhau bod y rolau perthnasol a nodir yn y ddeddfwriaeth yn cael eu henwebu ar gyfer pob ymchwiliad.

Mae Dogfen Rheoli Datgeliadau gynhwysfawr ynghlwm wrth unrhyw ffeil a gyflwynir i'r CPS.

Datganiad Tynnu'n Ôl

Pan fydd dioddefwr yn penderfynu tynnu honiad o drais rhywiol yn ôl, bydd SOTO yn cymryd y datganiad ac yn cadarnhau'r amgylchiadau perthnasol; os nad yw'r SOTO ar gael, rhaid nodi rhywun arall addas - fel arfer y Swyddog yn yr Achos (OIC).

Dioddefwr

Caiff y dioddefwr ei drin yn unol â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr](#). Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gofnodi ar System Rheoli Troseddau'r Heddlu.

Cynigir atgyfeiriad i bob dioddefwr i wasanaeth y Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA). Lle nad oes angen atgyfeirio'r dioddefwr, rhaid rhoi gwybodaeth iddo am yr opsiwn i hunangyfeirio, ac atgoffir y dioddefwr am y cymorth sydd ar gael drwy gydol yr ymchwiliad a chofnodir hyn.

Gellir cynnal cyswllt parhaus â dioddefwyr drwy drydydd parti, gan gynnwys ISVA ar yr amod bod y dioddefwr yn cytuno. Diben hyn yw gwella cyswllt dioddefwyr.

Gall dioddefwyr troseddau trais rhywiol dderbyn "Mesurau Arbennig" o dan A17 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a hefyd adrannau 23 - 30 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Rhaid i swyddogion sy'n mynychu esbonio'r opsiynau hyn gyda dioddefwyr a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o fesurau sydd ar gael.

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Pan fo'n briodol, mae angen archwiliad meddygol a rhaid ceisio a chofnodi cydsyniad y dioddefwr. Cynhelir yr archwiliad meddygol yn unol â gweithdrefnau lleol sy'n ymwneud â'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

Mae pob dioddefwr yn destun asesiad risg a chynllun rheoli risg i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu'n briodol.

Rheoli Troseddwy

Unwaith y bydd rhywun dan amheuaeth, rhaid i swyddogion gynnal adolygiad o'r bygythiad sy'n bodoli a chwblhau asesiad risg gyda chynllun rheoli risg priodol i ddiogelu'r dioddefwr a'r gymuned.

Rhaid i swyddogion feddwl yn eang am y cyfleoedd i reoli pobl dan amheuaeth a throeddwy gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) fechnïaeth cyn cyhuddo, gorchmynion sifil ac atgyfeiriadau WISDOM. Yr Unedau Rheoli Troseddwy dynodedig lle mae'r troseddwr neu'r unigolyn dan amheuaeth yn cael ei ddal sy'n gyfrifol am reoli troseddwy rhyw cofrestredig, MAPPA, IOM a WISDOM.

Rhaid i'r Uwch Swyddog Ymchwilio sicrhau bod yr holl gamau i leihau'r risg i'r dioddefwr ac aelodau o'r gymuned yn cael eu rhoi ar waith gan gynnwys defnyddio'r canlynol lle bo hynny'n briodol, e.e. gorchmynion sifil, mechnïaeth cyn cyhuddo, cyfeirio at raglenni ar gyfer troseddwy.

Adran Dadansoddi Troseddau Difrifol (SCAS)

Mae'r Heddlu'n cyflwyno gwybodaeth yn unol â pholisi SCAS. Mae aelod dynodedig o staff o fewn Adran Cudd-wybodaeth yr Heddlu (FIB) yn ymgymryd â rôl Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) yr Heddlu a bydd yn monitro perfformiad. Rhaid i SIOs ystyried ymchwil SCAS fel rhan o'u strategaeth cudd-wybodaeth.

Penderfyniad Dim Gweithredu Pellach (NFA)

Os gwneir penderfyniad nad yw'r achos yn gofyn am unrhyw gamau pellach, bydd y SIO gyda'r SOTO yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo lle bo'n bosibl mewn cyfarfod wyneb yn wyneb neu drwy alwad fideo, gyda'r ISVA neu gefnogwr arall yn bresennol. Rhaid i'r Swyddogion fod yn barod i esbonio'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau.

Er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch penderfyniadau'r Heddlu, rhaid i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau bod y CPS yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r ymchwiliadau lle mae

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

penderfyniad gan yr heddlu i gymryd camau pellach. Yn unol â [Phrotocol y CPS a'r Heddlu ar Drais Rhywiol](#).

COD MOESEG

TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Coed Moeseg ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

| | |
|--------------------|-------------------------------------|
| Enw: | Y Ditectif Uwcharolygydd [REDACTED] |
| Adran: | Adran Ymchwiliadau Troseddol |
| Llofnodwyd: | [REDACTED] |
| Dyddiad: | 30/09/2021 |

5. Gweithredu ac adolygu

Llywodraethu

Y swyddog arweiniol yw'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr arweiniad strategol ar gyfer troseddau trais rhywiol a chydgyssylltu Polisiâu.

Rheolir trais rhywiol o dan y portffolio Bregusrwydd sy'n cael ei oruchwylio gan y Grŵp Bregusrwydd Strategol ac mae'n cael ei gadeirio gan y Ditectif Brif Uwcharolygydd.

Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Bregusrwydd sy'n rhoi cyfeiriad strategol i'r Portffolio Trais Rhywiol.

Mae'r Ditectif Brif Uwcharolygydd yn sicrhau bod prosesau ar waith i gyflawni'r canlynol:

- Monitro'r gwaith o ymchwilio'n effeithiol i drais rhywiol a darparu sicrwydd ansawdd

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

- Cynnal safonau ymchwilio drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac adborth sy'n deillio o archwiliadau, canllawiau ac arferion gorau
- Sicrhau bod proses ar waith i'r holl achosion "Dim Trosedd" gael eu hadolygu gan Gofrestrydd Troseddau'r Heddlu
- Darparu gwasanaeth ymgynghori a chynghori ar gyfer materion ymchwilio i droseddau

Ymateb Tactegol

Rheolir ymateb yr Heddlu i ymchwiliadau i drais rhywiol gan y Ditectif Brif Arolygydd dynodedig gyda goruchwyliaeth gan y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus.

Yn ogystal, maent yn gyfrifol am adolygiad blynyddol o ymateb yr Heddlu i drais rhywiol ar y cyd â llunio Datganiad Rheoli'r Heddlu, gan ganolbwyntio ar gapasiti a gallu'r maes arbenigol hwn.

Deall y bygythiad.

Rhaid i'r Ditectif Brif Arolygydd gyda'r Portffolio Trais Rhywiol sicrhau bod dadansoddiad strategol yn cael ei gynnal yn rheolaidd i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer camau ataliol. Rhaid i'r Heddlu gyflawni'r camau ataliol hyn a hynny gyda phartneriaid, lle bo'n berthnasol.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr Heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr Heddlu. Polisiau yw pam ein bod yn gwneud pethau a gweithdrefnau yw sut rydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad fesul achos o weithdrefnau er mwyn amddiffyn prosesau gorfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Pan fydd dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei chynhyrchu mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Heddlu gyhoeddi'r adran bolisi ac asesu'r rhan sy'n cynnwys y weithdrefn i sicrhau na chyhoeddir unrhyw wybodaeth sensitif. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiodyn fydd y bydd polisi a'i ddogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân.

Mae'n ofynnol felly adolygu'r ddogfen hon i sefydlu ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Lle credir y bydd datgelu yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddiad hwnnw'n ei achosi ac amlygwch yr adrannau perthnasol yn y ddogfen. Lle credir y byddai datgelu'n achosi niwed, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

Polisi Heddlu Dyfed-Powys

Tudalen: 11

SWYDDOGOL



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi

| Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi | Ydy/Nac ydy | Dyddiad | Llofnod |
|--|-------------|------------|---------|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | ✓ | 30/09/2021 | ██████ |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol, rwyf wedi nodi'r adrannau hynny nad wyf yn credu eu bod yn addas i'w datgelu ac rwyf wedi nodi isod y niwed y byddai cyhoeddi'n ei achosi. | | | |

Niwed - wrth gyhoeddi: Ddim yn berthnasol

Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth - i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu

(Dim ond yn ofynnol os yw'r awdur yn credu y byddai datgelu'n achosi niwed)

| Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi | Ydy/Nac ydy | Dyddiad | Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth |
|--|-------------|---------|--------------------------------|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu yn rhannol a gwnaed y golygiadau perthnasol. Mae fersiwn ar gyfer y cyhoedd wedi'i chreu. | | | |

Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi ac yn dilyn cymeradwyaeth, dylid cyhoeddi'r ddogfen o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylid dwyn unrhyw newidiadau i'r ddogfen yn y dyfodol i sylw'r Uned Ddatgelu, fel sy'n briodol.

**Rheoli Fersiynau Llawn**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymeg |
|---------|---------------|---|------------------------------------|
| 5 | Hydref 2021 | Y Ditectif Uwcharolygydd [REDACTED] | Adolygu a diweddarau'r polisi |
| 4 | Mawrth 2016 | Y Ditectif Brif Arolygydd [REDACTED] | Adolygu a diweddarau'r polisi |
| 3 | Mai 2014 | Y Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro [REDACTED] [REDACTED] | Diweddariad amserol |
| 2 | Hydref 2013 | Y Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro [REDACTED] [REDACTED] | Templed polisi newydd yr Heddlu |
| 1 | Tachwedd 2009 | Y Ditectif Ringyll [REDACTED] [REDACTED] | Fersiwn gyntaf |